**BWRDEISTREF SIROL BLAENAU GWENT**

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE PWYLLGOR CYNLLUNI, RHEOLEIDDIO A THRWYDDEDU CYFFREDINOL (MATERION TRWYDDEDU CYFFREDINOL)** |
| **PWNC:** | **PWYLLGOR CYNLLUNI, RHEOLEIDDIO A THRWYDDEDU CYFFREDINOL (MATERION TRWYDDEDU CYFFREDINOL) - DYDD MERCHER, 18 RHAGFYR 2019 DYDD MERCHER, 18 RHAGFYR 2019** |
| **ADRODDIAD GAN:** | |

---

PRESENNOL: B. SUMMERS (CADEIRYDD)

Cynghorwyr: W. Hodgins
K. Pritchard
K. Rowson
T. Smith
B. Willis

A: Helen Jones (Swyddog)
Martin Woodland (Swyddog)
Lisa Griffin (Swyddog)

| **EITEM** | **PWNC** | **GWAITH** |
|---|---|---|
| **No. 1** | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| **No. 2** | **YMDDIHEURIADAU**<br><br>Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr M. Moore, J.P. Morgan, D. Wilkshire, L. Winnett. | |

| | | |
|---|---|---|
| **No. 3** | **<u>DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU</u>**<br><br>Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. | |
| **No. 4** | **<u>EITEM(AU) EITHRIEDIG</u>** | |
| **No. 5** | **<u>RHESTR CEISIADAU AR GYFER TRWYDDEDAU CERBYD HACNI A HUR PREIFAT</u>**<br><br>Gan roi ystyriaeth i'r farn a fynegwyd gan y Swyddog Priodol parthed y prawf budd cyhoeddus, o bwyso o mesur popeth fod y budd cyhoeddus mewn cynnal yr eithriad yn fwy na'r budd cyhoeddus mewn datgelu'r wybodaeth ac y dylai'r wybodaeth gael ei heithrio.<br><br>PENDERFYNWYD eithrio'r cyhoedd tra cynhaliwyd yr eitem hon o fusnes gan ei bod yn debygol y byddai datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14, Rhan 1, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Tîm Trwyddedu a Masnachol, yn cynnwys:-<br><br>*<u>Cais am drwydded newydd Gyrrwr Cerbyd Hacni/Cerbyd Hur Preifat:</u>*<br><br>Ar wahoddiad y Cadeirydd, esboniodd yr Uwch Swyddog Trwyddedu fod y cais gerbron y Pwyllgor ar gyfer Trwydded Gyrrwr Cerbyd Hacni/Cerbyd Hur Preifat. Hysbyswyd aelodau fod yr ymgeisydd yn flaenorol wedi dal Trwydded Gyrrwr Cerbyd Hacni ar ddau achlysur gwahanol, gyda'r drwydded ddiweddaraf yn dod i ben yn 2011.<br><br>Nodwyd o gofnodion DBS fod gan yr ymgeisydd euogfarnau am droseddau blaenorol ac esboniodd yr ymgeisydd amgylchiadau'r troseddau i Aelodau, oedd i gyd wedi'u cyflawni nifer o flynyddoedd yn ôl.<br><br>Hysbysodd yr ymgeisydd y Pwyllgor, os caiff drwydded, y byddai'n cael ei chyflogi gyda chwmni tacsi lleol yn ardal Nantyglo.<br><br>Ystyriodd Aelodau y dystiolaeth, gan roi ystyriaeth i'r euogfarnau blaenorol a'r sylwadau a wnaed gan yr ymgeisydd a'r Uwch | |

Swyddog Trwyddedu. Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i bolisi'r Cyngor ar euogfarnau yng nghyswllt Trwyddedau Cerbydau Hacni a Cherbydau Hur Preifat. Roedd y Pwyllgor o'r farn fod yr ymgeisydd yn berson addas a chywir i ddal Trwydded Gyrrwr Cerbyd Hacni ac felly PENDERFYNWYD **RHOI** Trwydded am gyfnod o 3 blynedd.

*Adolygiad o Drwydded Gyrrwr Cerbyd Hacni/Cerbyd Hur Preifat*

Esboniodd y Swyddog Gorfodaeth Trwydded y daethpwyd â'r mater gerbron y Pwyllgor i adolygu Trwydded Gyrrwr Cerbyd Hacni/Cerbyd Hur Preifat yn dilyn cwyn a gafwyd gan aelod o'r cyhoedd ar 3 Tachwedd 2019 fod y Deiliad Trwydded wedi codi gormod o bris ar gwsmer.

Esboniodd y Swyddog fod yr achwynydd yn fenyw anabl 72 oed a'i bod wedi hurio'r deiliad trwydded am daith ar 25 Hydref o Nantyglo i'r Ganolfan Dysgu Gweithredol yng Nglynebwy ac yn ôl. Roedd y Deiliad Trwydded wedi codi pris o £40 ar y fenyw am y daith, ac roedd y fenyw wedi talu £35 gan mai dyna'r holl arian oedd ganddi ar y pryd.

Hysbysodd y Swyddog yr Aelodau o gyfrif ar mesurydd y dylai cost y daith fod wedi bod tua £19 i £22. Ar ôl i'r Adran Drwyddedu dderbyn y gŵn, gofynnwyd i'r Deiliad Trwydded i fynychu cyfarfod anffurfiol. Yn y cyfarfod hwnnw ni wnaeth y deiliad Trwydded wadu'r cyhuddiad yn ei erbyn ac ychwanegodd ei fod wedi teithio o Six Bells, Abertyleri i ddechrau'r daith ac mai dyna'r rheswm am y tâl ychwanegol. Roedd y Swyddog Trwyddedu wedi esbonio na chaniateid hynny ac y dylai cost pob taith gael ei gofnodi gan y mesurydd yn y tacsi, ac na ddylai'r mesurydd ddechrau nes bod y gyrrwr yn codi'r teithiwr.

Wedyn gwahoddwyd y Deiliad Trwydded i fynychu'r cyfarfod dan rybudd, ac amlinellodd y Swyddog sylwadau'r cyfweliad i Aelodau. Y drosedd a amlinellwyd oedd codi pris rhy uchel a dywedodd y Swyddog Trwyddedu hefyd bod peidio defnyddio'r mesurydd a osodwyd yn y tacsi yn torri is-gyfraith yn amodau Trwydded Gyrru Cerbyd Hacni.

Dywedodd y Swyddog Trwyddedu wrth y Pwyllgor fod y deiliad

trwydded wedi bod â thrwydded Gyrrwr Cerbyd Hacni ac ers 2008 ac ers hynny mae'r Adran wedi derbyn cwynion yn 2009 a 2018.

Yng nghyswllt y gŵyn bresennol, a'r materion yn ymwneud â chost y daith, esboniodd y Deiliad Trwydded wrth Aelodau ei fod wedi teithio o Six Bells i Lynebwy, ac yna o Lynebwy i Six Bells ar y daith yn ôl ac fel canlyniad ei fod 'allan o boced'. Dywedodd hefyd fod y fenyw wedi dweud wrtho y byddai ei mab yn cwrdd â hi yn Wetherspoon's yng Nglynebwy, fodd bynnag pan gyrhaeddodd Glynebwy nid oedd mab y fenyw yno i'w helpu. Nid oedd ganddo unrhyw sylwadau eraill i'w gwneud heblaw nad oedd yn ofalwr y dylid disgwyl iddo gynorthwyo pobl i mewn ac allan o'r cerbyd.

Ystyriodd y Pwyllgor y dystiolaeth a'r sylwadau a gafwyd gan y Deiliad Trwydded a'r Swyddog Gorfodaeth Trwyddedu. Mynegodd Aelodau bryder am fater codi pris rhy uchel a chytuno y dylai Gyrwyr Cerbydau Hacni fod yn defnyddio mesuryddion yn unol â gweithdrefnau a gytunwyd. Roedd Aelodau o'r farn nad oedd y deiliad trwydded mwyach yn berson ffit a chywir i ddal Trwydded Gyrrwr Cerbyd Hacni, ac felly

PENDERFYNWYD diddymu'r drwydded yn unol â Pharagraff 6 Amodau'r Drwydded, yn ymgorffori Cod Ymddygiad a pharagraff 3.2 yr wybodaeth a'r canllawiau, yn cynnwys amodau'n gysylltiedig â Thrwyddedau Gyrwyr Cerbyd Hacni a Thrwyddedau Gyrwyr Cerbyd Hur Preifat sy'n dweud "Lle mae amheuaeth am ffitrwydd ymgeisydd neu ddeiliad trwydded, bydd y Cyngor yn defnyddio dull gweithredu rhag ofn a gall wrthod y cais, neu ddiddymu'r drwydded, fel sy'n berthnasol."

Hysbyswyd y deiliad trwydded y gallai apelio yn erbyn penderfyniad y Pwyllgor, i'r Llys Ynadon, o fewn 21 diwrnod o ddyddiad heddiw.

*Cais am Drwydded Gyrrwr Cerbyd Hacni/Gyrrwr Hur Preifat*

Dywedwyd fod yr Ymgeisydd wedi methu ymddangos gerbron y Pwyllgor ac felly

PENDERFYNWYD **GOHIRIO** y cais.